Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

23 Mawrth 2021

Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Annwyl Weinidog

Byddwch yn ymwybodol o ohebiaeth flaenorol bod ein hymchwiliad i addysg heblaw yn yr ysgol wedi'i oedi yn anffodus oherwydd effaith y pandemig COVID-19. Wrth i ni nesáu at etholiad y Senedd, rhaid i'n gwaith ni fel Pwyllgor – gan gynnwys ein hymchwiliad i addysg heblaw yn yr ysgol – ddod i ben.

Er bod COVID-19 wedi tarfu ar ein rhaglen o graffu ar bolisi, mae addysg heblaw yn yr ysgol wedi parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol inni dros y flwyddyn ddiwethaf. O ystyried ei bwysigrwydd, rydym wedi sicrhau ei fod wedi ymddangos yn glir yn ein gwaith craffu ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc, ac wrth i ni ystyried y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Mae manylion y dystiolaeth ysgrifenedig a'r dysgiolaeth lafar a gasglwyd fel rhan o'n hymchwiliad i addysg heblaw yn yr ysgol, a'r gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd gennym, wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Rydym yn annog y Pwyllgor olynol a Llywodraeth nesaf Cymru, wrth iddynt ddechrau ar eu priod raglenni gwaith, i ddefnyddio'r corff cyfoethog o wybodaeth a gyflwynwyd inni, a blaenoriaethu ystyried trefniadau ar gyfer y rhai a addysgir heblaw yn yr ysgol yn ystod y Chweched Senedd.

Hoffem dynnu sylw at yr **egwyddorion allweddol** canlynol a gododd yn y dystiolaeth a gasglwyd gennym. Credwn y bydd y rhain yn darparu sylfaen bwysig ar gyfer gwella'r ddarpariaeth i rai o'n plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed, a byddant yn helpu i lywio'r camau nesaf ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â'i Fframwaith Gweithredu Addysg Heblaw yn yr Ysgol a'r Canllawiau Atgyfeirio a Chomisiynu Addysg Heblaw yn yr Ysgol a ddisgwylir:

- Sicrhau y caiff **anghenion eu canfod yn gynnar**, gyda'r bwriad o gefnogi plant a phobl ifanc i aros mewn addysg brif ffrwd lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol;
- Mabwysiadu **dull cydgysylltiedig ac amserol ar draws gwasanaethau cyhoeddus** i fynd i'r afael ag anghenion, ar ôl eu canfod, yn y lleoliad mwyaf priodol;
- Gwreiddio'r **agwedd ysgol gyfan tuag at iechyd meddwl a llesiant** ym mhob lleoliad addysg, gan gynnwys Addysg Heblaw yn yr Ysgol;

- Darparu adnodd ac amser i **ddatblygiad proffesiynol staff** mewn lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol, gyda'r nod o sicrhau llwybrau gyrfa clir, dilyniant a chydnabyddiaeth;
- Sicrhau trefniadau priodol ar gyfer **comisiynu** darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gaiff ei rheoleiddio;
- **Ymgysylltu â rhieni** drwy gydol taith addysg eu plentyn mewn addysg heblaw yn yr ysgol, gan ddarparu gwybodaeth a chymorth sy'n anelu at gyn lleied â phosibl o aflonyddwch a chyda'r nod o **gefnogi'r teulu cyfan**;
- Gweithio gyda llywodraeth leol i sicrhau **digon o gyllid** ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol, yng nghyd-destun mynd i'r afael â phwysau ehangach ar ariannu ysgolion fel yr argymhellir yn ein hymchwiliad i Gyllido Ysgolion;
- Gweithio gydag Estyn, consortia lleol a'r proffesiwn i sicrhau bod ystyriaeth ystyrlon o daith plentyn/person ifanc drwy addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys ffocws ar lesiant a deilliannau, yn rhan allweddol o **drefniadau atebolrwydd** i ddarparwyr;
- Annog dull sy'n seiliedig ar ragdybiaeth y bydd mwyafrif y dysgwyr, lle bo'n ddiogel ac yn briodol, yn cael eu **cefnogi i ddychwelyd i addysg brif ffrwd** – dylai hyn gynnwys sicrhau bod dyheadau a disgwyliadau uchel ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, a bod gweithredu'r cwricwlwm newydd yn uchelgeisiol ynghylch dysgu a chyfleoedd bywyd dysgwyr sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol;
- Sicrhau bod y rhaglen drawsnewid anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cynnwys ffocws penodol ar hyfforddiant, capasiti a chyllid ar gyfer **ADY o fewn addysg heblaw yn yr ysgol**;
- Ddatblygu darpariaeth **Gymraeg** addysg heblaw yn yr ysgol, er mwyn hwyluso gwell cymorth yn newis iaith y dysgwr;
- Comisiynu ymchwil pellach i faterion eraill sydd â chysylltiad agos ag addysg heblaw yn yr ysgol, er mwyn deall eu heffaith yn well, gan gynnwys **symudiadau wedi'u rheoli**, **tynnu disgyblion oddi ar y gofrestr**, a chysylltiad **â throseddu a'r system cyfiawnder troseddol** (gan gynnwys effaith llinellau sirol).

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gofnodi ein diolch fel Pwyllgor i'r holl randdeiliaid a gymerodd ran yn ein hymchwiliad. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r plant a'r bobl ifanc y gwnaethom gwrdd â hwy yn ystod ein gwaith, ac a siaradodd mor agored a pharod am eu profiadau.

Yn gywir



Lynne Neagle AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.